

2020 Rhif (Cy. )

2020 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Gwyddelwern, Sir Ddinbych)  
(Terfyn Cyflymder 40 mya Dros  
Dro) 2020

The A494 Trunk Road  
(Gwyddelwern, Denbighshire)  
(Temporary 40 mph Speed Limit)  
Order 2020

*Gwnaed* 13 Hydref 2020  
*Yn dod i rym* 16 Hydref 2020

*Made* 13 October 2020  
*Coming into force* 16 October 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A494, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A494 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted because of the likelihood of danger to the public.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Gwyddelwern, Sir Ddinbych) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 16 Hydref 2020.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Gwyddelwern, Denbighshire) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 2020 and it comes into force on 16 October 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd wrth droeon Maes Gamedd, Gwyddelwern, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt sy'n 79 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr anheddau a elwir Bryn-du a Maerdy, i'r gogledd o Wyddelwern hyd at bwynt sy'n 217 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

### Cymhwyso

4.—(1) Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

5. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

13 Hydref 2020

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead trunk road.

### Restriction

3. No person may drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road at Maes Gamedd bends, Gwyddelwern, Denbighshire that extends from a point 79 metres south-east of its junction with the unclassified road leading to the dwellings known as Bryn-du and Maerdy, north of Gwyddelwern to a point 217 metres north of that junction.

### Application

4.—(1) The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

### Suspension

5. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

### Duration of this Order

6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

13 October 2020

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

**CEFNNFORDD YR A494 (GWYDDELWERN,  
SIR DDINBYCH) (TERFYN CYFLYMDER 40  
MYA DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffordd hyd nes y bydd cynllun uwchraddio ffordd yn cael ei datblygu ar gefnffordd yr A494 wrth droeon Maes Gamedd, Gwyddelwern, Sir Ddinbych.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 40 mya ar y darn o'r A494 sy'n ymestyn o bwynt sy'n 79 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at yr anheddau a elwir Bryn-du a Maerdy, i'r gogledd o Wyddelwern hyd at bwynt sy'n 217 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad dros dro yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 16 Hydref 2020 ac y bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A494 TRUNK ROAD (GWYDDELWERN,  
DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY 40 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER 2020**


The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of road users until a road upgrade scheme is developed on the A494 trunk road at Maes Gamedd bends, Gwyddelwern, Denbighshire.

The effect of the Order is to temporarily impose a 40 mph speed limit on the length of the A494 that extends from a point 79 metres south-east of its junction with the unclassified road leading to the dwellings known as Bryn-du and Maerdy, north of Gwyddelwern to a point 217 metres north of that junction.

The temporary restriction is expected to come into force at 00:01 hours on 16 October 2020 and to remain in force for a maximum duration of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government